Pecyn Cyhoeddus

Rhybudd o Benderfyniadau **Cyfarfod y Cabinet** a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ac o bell ar **Ddydd Mawrth, 14 Mai 2024**

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5.00pm Dydd Iau, 16 Mai 2024. Y dyddiad olaf i dderbyn cais i alw unrhyw benderfyniad i mewn yw 5.00pm Dydd Iau, 23 Mai 2024 drwy ei anfon at Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd yna gais dilys i'w galw i mewn) Dydd Gwener, 24 Mai 2024.

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Bryan Davies (Cadeirydd), y Cynghorwyr Catrin M S. Davies, Clive Davies, Gareth Davies, Keith Henson, Wyn Thomas, Matthew Vaux ac Alun Williams.

HEFYD YN BRESENNOL: Y Cynghorwyr Shelley Childs, Euros Davies, Endaf Edwards, Elizabeth Evans, Gwyn Wigley Evans, Keith Evans, Raymond Evans, Rhodri Evans, Wyn Evans, Hugh Hughes, Gareth Lloyd a Sian Maehrlein.

(10.00am- 12.39pm)

200 Ymddiheuriadau

i. Ymddiheurodd Lowri Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd a Audrey Somerton-Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cynnal am nad oeddent yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod.
ii. Ymddiheurodd Alun Williams, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd am nad oedd yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod oherwydd ymrwymiadau eraill y Cyngor.

201 Materion Personol

i. Dymunwyd yn dda i Lowri Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd yn dilyn salwch diweddar.
ii. Cydymdeimlwyd â Geraint Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Pobl a Threfniadaeth a'r teulu ar golli ei dad.
iii. Llongyfarchwyd Dafydd Llywelyn ar gael ei ail-ethol yn Gomisiynydd Heddlu a Throsedd ardal Heddlu Dyfed-Powys.

202 Datgelu buddiannau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu

i. Datganodd y Cynghorydd Alun Williams fuddiant personol mewn perthynas â Deiseb A (Rydym ni sydd wedi llofnodi isod yn dymuno gwrthwynebu cynllun yr Awdurdod Lleol i newid cyfrwng y dysgu i'r Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen yn Ysgol Plascrug erbyn Medi 2024. Hoffem i'r ysgol gadw ei pholisi presennol o ddysgu'n ddwyieithog ym mhob oed ac ar draws y grwpiau blwyddyn.) yn eitem 204.
ii. Datganodd y Cynghorydd Keith Henson fuddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu mewn perthynas ag eitem 212 a gadawodd y cyfarfod pan oedd y mater hwnnw'n cael ei drafod.

203 Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod Blaenorol y Cabinet ac unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion hynny

Cadarnhau bod cofnodion Cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 19 Mawrth 2024 yn gywir.

Materion yn codi: Nid oedd materion yn codi o'r cofnodion.

204 Unrhyw ddeisebau a dderbyniwyd

a. Rydym ni sydd wedi llofnodi isod yn dymuno gwrthwynebu cynllun yr Awdurdod Lleol i newid cyfrwng y dysgu i'r Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen yn Ysgol Plascrug erbyn Medi 2024. Hoffem i'r ysgol gadw ei pholisi presennol o ddysgu'n ddwyieithog ym mhob oed ac ar draws y grwpiau blwyddyn.
b. "Gwrthod y Newidiadau Arfaethedig yn Aberystwyth"

Nodwyd bod y deisebau uchod wedi dod i law ac y byddent yn cael eu trin yn unol â'r canllawiau yn y Protocol Deisebau.

205 Unrhyw benderfyniadau (os oes rhai) a alwyd i mewn gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu

Dim.

206 Unrhyw adborth gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu sydd ddim ar yr agenda

Dim.

207 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Economi ac Adfywio ynghylch Cynllun Ynni Ardal Leol

PENDERFYNIAD:
Cymeradwyo'r Cynllun Ynni Ardal Leol.

Y *rheswm dros y penderfyniad:*
Mae diweddariadau cynnydd rheolaidd yn rhan annatod o fonitro ein taith Sero Net ac mae cymeradwyo Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Ynni yn rhoi cyfeiriad i waith lleol a rhanbarthol ar ynni.

208 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol ynghylch Gorchymyn Cyngor Sir Ceredigion (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Dadlwytho) 2019 (Glan Môr Aberystwyth) (Gorchymyn Diwygio Rhif 11) 2024.

PENDERFYNIAD:
Cymeradwyo:
1) gwneud y Gorchymyn Rheoleiddio Traffig angenrheidiol,
2) cyhoeddi Hysbysiad Gwneud dilynol yn y wasg i'r perwyl hwn, a
3) yr ymateb a awgrymir i wrthwynebwyr (Atodiad 3).

Y *rheswm dros y penderfyniad:*
Awdurdodi gwneud y Gorchymyn Rheoleiddio Traffig uchod, a chyhoeddi hysbysiad yn y wasg leol i'r perwyl hwnnw.

209 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Ysgolion ynghylch Llywodraeth Cymru - Rhaglen Amlinellol Strategol - Rhaglen Dreigl - Cymunedau Dysgu Cynaliadwy

PENDERFYNIAD:
Cymeradwyo'r Rhaglen Amlinellol Strategol a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru.

Y *rheswm dros y penderfyniad:*
Sicrhau cyllid grant drwy Raglen dreigl Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru.

210 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Ysgolion ynghylch Polisi Derbyn Ysgolion 2025/2026

PENDERFYNIAD:
Cymeradwyo'r Polisi Derbyn Disgyblion 2025/2026.

Y *rheswm dros y penderfyniad:*
I gael polisi mewn lle ar gyfer 2025/2026.

211 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Ysgolion ynghylch Cynrychiolwyr yr Awdurdod Lleol ar Gyrff Llywodraethol

PENDERFYNIAD:
Cadarnhau enwebu'r sawl a enwebwyd yn yr adroddiad yn gynrychiolwyr o'r Awdurdod Lleol ar Gyrff Llywodraethol yr Ysgolion perthnasol.

Y *rheswm dros y penderfyniad:*
Enwebu cynrychiolwyr o'r Awdurdod Lleol ar Gyrff Llywodraethol.

212 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cynnal ynghylch Gosod Ffioedd 24/25 ar gyfer Pobl Hyn - Ffioedd yr Awdurdod Lleol a'r Sector Annibynnol

PENDERFYNIAD:

1. Cymeradwyo'r ffioedd ar gyfer Cartrefi Gofal preifat yng Ngheredigion ar gyfer 2024/25 ar y lefelau wythnosol canlynol, a fydd yn dod i rym o 08/04/2024:

Preswyl	£896.00
EMI Preswyl	£958.00
Nyrsio	£1,040.00
EMI Nyrsio	£1,040.00

2. Cynnig ffi am ystafelloedd sydd ag ystafell ymolchi yn gysylltiedig am swm ychwanegol o £25 yr wythnos am ystafelloedd perthnasol, a fydd yn dod i rym o 08/04/2024.
3. Cymeradwyo'r ffioedd ar gyfer Cartrefi Gofal Preswyl sy'n cael eu rhedeg gan y Cyngor yng Ngheredigion ar gyfer 2024/25 yn unol â'r lefelau wythnosol canlynol, a fydd yn dod i rym o 08/04/2024:

Preswyl	£896.00
EMI Preswyl	£958.00

4. Nodi bod nifer fach o gontractau preifat wedi cael eu hetifeddu ar ôl trosglwyddo Hafan y Waun i'r Cyngor ac y bydd y ffioedd ar gyfer y lleoliadau hyn yn parhau yn unol â'r contractau hynny.
5. Nodi bod y cylch er mwyn cynnal adolygiad manwl arall o'r Ffioedd yn golygu y dylid cynnal hwn ar gyfer y broses o osod ffioedd ar gyfer 25/26 neu 26/27.

Y *rheswm dros y penderfyniad:*
Cytuno ar a gosod ffioedd i Bobl Hŷn ar gyfer 2024/25.

213 Nodi Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cynnal ynghylch Adroddiad Blynyddol Bwrdd Diogelu Plant ac Oedolion Canolbarth a Gorllewin Cymru 2022-2023
Nodwyd yr adroddiad.

214 Nodi Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cymorth Cynnar ynghylch Cofnodion Cyfarfod Cyngor Ieuenctid Ceredigion (02.02.24)
Nodwyd yr adroddiad.

215 Nodi Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cymorth Cynnar ynghylch Cofnodion Cyfarfod Cyngor Ieuenctid Ceredigion (20.03.24)
Nodwyd yr adroddiad.

216 Nodi Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd ynghylch Adroddiad Hanner Blwyddyn ynghylch Canmoliaeth a Chwynion - rhwng 1 Ebrill 2023 a 30 Medi 2023 gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu
Nodwyd yr adroddiad a'r adborth o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol.

217 Unrhyw fater arall y penderfyna'r Cadeirydd fod arno angen sylw brys gan y Cabinet
Dim.

Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 3 Mehefin 2024

Cadeirydd:_____

Dyddiad:_____